# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 6/6/17

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Aled Ll. Evans, Aeron M. Jones, Aled Wyn Jones, Charles Wyn Jones, Huw G. Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Peter Read, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

**Aelod Lleyg:** John Pollard

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorwyr Steve Collings, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Elwyn Jones, Cai Larsen, Catrin Wager, Gareth Williams a Owain Williams (Aelodau Lleol) ynghyd â Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitemau 9 a 10 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio); Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol)), Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) – ar gyfer Eitem 8 ar y rhaglen; a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts a'r Cynghorwyr Anwen Davies, Anne Lloyd Jones, Eryl Jones-Williams, W. Roy Owen a Mair Rowlands (Aelodau Lleol).

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R. Medwyn Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2017/18.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Brynmor Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2017/18.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2017, fel rhai cywir.

## 5. SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg ar y swyddogaethau i'w cyflawni gan y Pwyllgor. Tynnodd sylw yr adnabyddir y pwyllgor bellach fel y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, nodwyd bod y newid enw yn adlewyrchu esblygiad rôl a swyddogaethau'r pwyllgor ers sefydlu'r Pwyllgor Archwilio yn 1999. Nododd, yn dilyn penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017, fod gan y pwyllgor swyddogaeth ychwanegol o graffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor.

Tynnodd sylw y cynhelir hyfforddiant i aelodau'r pwyllgor ar gyfrifoldebau'r pwyllgor ar 14 Mehefin. Eglurodd yn ddelfrydol y byddai'r aelodau wedi derbyn hyfforddiant cyn y cyfarfod cyntaf ond nid oedd yn bosib oherwydd yr angen i drefnu'r cyfarfod yma er mwyn i'r Cyngor ymateb yn amserol i'r Comisiwn Ffiniau yng nghyswllt adolygiad o ffiniau etholaethol Gwynedd.

Cyflwynodd Drefniadau Gweithredu drafft y Pwyllgor er sylwebaeth a'u mabwysiadu. Rhoddodd fanylion am y Trefniadau Gweithredu drafft newydd sy'n seiliedig ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Canllawiau Statudol a baratowyd i'w gefnogi. Pwysleisiodd nad oedd y pwyllgor yn bwyllgor craffu yn ôl gofynion y ddeddf ac mai rôl ychwanegol oedd y rôl craffu. Eglurodd bod y pwyllgor yn unol â'r mesur wedi bod yn craffu materion ariannol ond y byddai'r pwyllgor o hyn ymlaen hefyd yn craffu materion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu. Nododd y cynhelir gweithdy anffurfiol i aelodau'r pwyllgor, ar ôl cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ar 22 Mehefin, er mwyn adnabod materion craffu ar gyfer y flwyddyn.

Nododd aelod ei bod yn falch bod y pwyllgor yma yn ymgymryd â'r rôl craffu ychwanegol gan gymryd trosolwg lefel uchel ar weithrediadau'r Cyngor.

Holodd aelod parthed y gofyn ar y pwyllgor i godi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol er mwyn cyflawni ei rôl yn gyflawn. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg mai un ffordd roedd y pwyllgor yn codi ymwybyddiaeth oedd trwy'r Gweithgor Gwella Rheolaethau, lle galwir swyddogion gerbron os oedd y pwyllgor yn anfodlon gyda trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol neu llywodraethu o fewn adrannau'r Cyngor.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cadw cysondeb o ran trefniadau paratoi pwyllgorau craffu a threfniadau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wrth ymgymryd â'r rôl craffu ychwanegol, nododd Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd y cynhelir gweithdy i adnabod materion i'w craffu gan y pwyllgor ar gyfer blaenraglen am y flwyddyn yn unol â'r trefniadau ar gyfer y pwyllgorau craffu. Nodwyd bod y drefn o gynnal cyfarfodydd paratoi 5 wythnos cyn cyfarfodydd y pwyllgorau craffu wedi dod i ben ac fe gynhelir cyfarfod i baratoi ar gyfer eitemau i'w craffu yn y cyfarfod dilynol ar derfyn cyfarfod pwyllgor, byddai'r trefniant yma hefyd ar gyfer y pwyllgor yma.

Nododd aelod mai sylfaen gweithredu'r pwyllgor ddylai fod trosolwg o ran risg i'r Cyngor yn hytrach na materion unigol. Ategodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y sylw gan nodi mai trosolwg o drefniadau dydd i ddydd y Cyngor oedd swyddogaeth y pwyllgor, dim risgiau penodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Trefniadau Gweithredu.**

## 6. ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHOL GWYNEDD

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yr adroddiad, gan nodi bod y Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth, wedi derbyn adroddiad ar yr adolygiad. Eglurodd bod yr amserlen o ran cyflwyno cynigion drafft i'r Comisiwn Ffiniau gan y Cyngor wedi ei ymestyn i ganol mis Mehefin oherwydd y cyfnod etholiadol.

Nododd y gofynnir i'r pwyllgor ystyried y cynigion drafft a'r opsiynau posib a nodir yn yr adroddiad gerbron gan argymell i'r Cyngor Llawn, a fyddai'n cyfarfod ar 15 Mehefin, gynigion gan y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau. Yn ogystal, argymell i'r Cyngor Llawn y dylid pwyso eto ar y Comisiwn Ffiniau i roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth oedd ddim ar y gofrestr etholwyr wrth lunio ei gynigion.

Tynnodd sylw bod y Comisiwn Ffiniau wedi cynnig mai'r cyfartaledd o etholwyr i bob aelod yng Ngwynedd fyddai 1,243 o etholwyr. Nododd bod pob etholaeth yn wahanol ac nid oedd yn ymarferol glynu yn rhy llym at y ffigwr hynny ym mhob achos. Nod y cynigion drafft oedd caniatáu amrywiaeth o hyd at 25% uwchben neu o dan y nifer hynny, ar sail y math o amrywiaeth yr oedd y Comisiwn wedi ei ganiatáu yn y gorffennol.

Nododd mai egwyddor arall oedd wrth wraidd y cynigion gerbron oedd ceisio lleihau'r nifer o etholaethau dau aelod yn y sir. Eglurodd mai barn y Cyngor oedd y dylid cael etholaethau un aelod er mwyn symleiddio atebolrwydd i etholwyr lle mae daearyddiaeth a natur cymunedau yn caniatáu hynny.

Adroddodd bod yr opsiynau wedi eu trafod i wahanol raddau gyda'r Aelodau Lleol perthnasol ac fe ymgynghorwyd â'r Cynghorau Cymuned.

Tywysodd yr aelodau drwy'r adroddiad gan ofyn iddynt fynegi barn ar y cynigion a gwahoddwyd yr Aelodau Lleol a oedd yn bresennol i gyflwyno sylwadau.

**Dolbenmaen / Porthmadog (Tremadog)**

Nodwyd bod y ddwy etholaeth yn rhai, lle ni awgrymir newid ar hyn o bryd, ond y gallai'r Comisiwn Ffiniau ystyried eu newid, os nad eleni, yn sicr erbyn yr adolygiad a fyddai'n digwydd ar ôl etholiadau 2022. Os cyfyd yr angen i newid, yr unig bosibilrwydd y gellid ei ystyried oedd rhannu ward Porthmadog (Tremadog) fel bod rhai o'r wardiau cymunedol yn ymuno ag etholaeth Dolbenmaen ac eraill yn symud i un o ddwy etholaeth arall Porthmadog gan arwain at leihad o 1 sedd. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn o ran argymell newid neu adael y mater i'r Comisiwn.

Nododd aelod lleol Dolbenmaen y byddai unrhyw newid a ystyrir yn golygu ychydig iawn o newid o ran niferoedd etholwyr. Byddai ymestyn y ffin tuag at Cwmstradllyn efallai'n balansio'r niferoedd ond byddai ymestyn y ffin i Pwllgoleulas yn golygu gormod o symudiad un ffordd o ran ward Dolbenmaen.

Nododd aelod lleol Porthmadog (Tremadog) bod ardal ddaearyddol y ward yn ei ffurf bresennol yn golygu pellter rhwng Penmorfa a'r Wyddfa. 'Roedd o'r farn bod yr hyn a ystyrir ddim yn rhoi ystyriaeth i'r problemau pragmataidd a oedd yn wynebu pobl wledig a symudiadau cymdeithasol. Nododd os argymhellir newid fe fyddai Pant Glas yn gorwedd yn well efo Bryncir na Clynnog. Eglurodd oherwydd hanes/traddodiad bod Tremadog efo Porthmadog yn gwneud synnwyr ac fe fyddai ward o Fryncir i'r Wyddfa yn rhy fawr.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) mai niferoedd etholwyr oedd prif ystyriaeth y Comisiwn ond oherwydd bod yr aelodau lleol yn fodlon nad oedd angen newid ac nad oedd unrhyw newid ystyrlon arall yn cynnig ei hun, ni chyflwynir cynnig i'r Comisiwn.

**PENDERFYNWYD peidio argymell newid i'r Cyngor Llawn.**

**Etholaethau lle na gynigir newidiadau**

Nododd aelod bod niferoedd etholwyr wardiau Gerlan, Ogwen a Tregarth a Mynydd Llandygai oddeutu 30% dros y ffigwr 1,243, a gofynodd a oedd perygl y byddai'r Comisiwn yn ystyried bod y nifer etholwyr yn rhy uchel? Cydnabodd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod perygl y byddai'r Comisiwn yn edrych arnynt ond gobeithir na fyddent yn awgrymu newid gan bod eu prif ffocws ar yr etholaethau bychan.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai llefydd naturiol efo'i gilydd dylai yrru'r gwaith o ran llunio ffiniau etholaethol ond mathemateg oedd yn dueddol o yrru'r Comisiwn. Nododd y

byddai rhaid i'r Cyngor amddiffyn yr hyn a gynigir i'r Comisiwn rhag iddynt edrych ar y fathemateg a llunio etholaethau 2 neu 3 aelod, a oedd ym marn y Cyngor yn drysu atebolrwydd. Cadarnhaodd bod risg ond bod y Cyngor yn ceisio creu cynllun y gall y Cyngor ei amddiffyn.

**Ardal Dinas Bangor**

Adroddodd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) ei fod wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Dinas Bangor ar 5 Mehefin a'u bod yn ei hanfod yn derbyn y byddai gostyngiad yn niferoedd y cynghorwyr ond eu bod eisiau lleihau'rgostyngiad. Nododd bod y Cyngor Dinas am gyflwyno opsiwn o ran rhannu'r ddinas i leihau'r gostyngiad a gynigir cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.

Nododd aelod lleol Deiniol y cyflwynodd awgrym  i uno Garth a Hirael cyn ei fod wedi dod yn ymwybodol bod ymgyrch i geisio cofrestru llawer o bobl yn ardal Bangor. 'Roedd nifer o unigolion ddim wedi cofrestru i bleidleisio yn ward Deiniol ond yn y tymor hir fe ellir bod cynnydd sylweddol yn nifer yr etholwyr.

Nododd aelod lleol Menai (Bangor) bod Prifysgol Bangor yn trafod trefniadau o ran cofrestru pob myfyrwyr yn awtomatig. Gallai niferoedd etholwyr gynyddu'n sylweddol felly fe ddylid pwyllo a disgwyl am ymateb mwy cadarn gan y brifysgol.

Nododd aelod lleol Garth ei fod yn syniad edrych ar ffigyrau hanesyddol o ran niferoedd etholwyr gydag oddeutu 9,000 o fyfyrwyr ar goll o'r niferoedd presennol.

Nododd aelod ei fod yn cytuno efo sylwadau'r aelodau lleol, roedd dogfen y Comisiwn yn cyfeirio at poblogaeth ac etholwyr, o edrych ar y boblogaeth roedd y wardiau presennol yn cyrraedd y gofynion. Ychwanegodd na fyddai'r newid a gynigir i gydfynd â gofynion y Comisiwn o ran etholwyr yn adlewyrchu gwir waith cynghorydd a fe ddylid rhoi cyfle i'r aelodau lleol a Cyngor Dinas Bangor gyflwyno cynnig.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) nad oedd y Comisiwn am ymestyn y dyddiad cau ac roeddent yn asesu ar bwynt mewn amser gan adolygu pan gynhelir adolygiad o ffiniau etholaethol yn y dyfodol. Nododd nad oedd yn anghytuno efo'r sylwadau a wnaed ond ceisir ymateb yn unol â gofynion y Comisiwn.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfle i'r aelodau lleol a Chyngor Dinas Bangor i gyflwyno cynnig cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.**

**Ardal Tref Caernarfon**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) y gwneir awgrymiadau i dacluso ffiniau yn nhref Caernarfon, gan ddefnyddio ffiniau naturiol Ffordd Llanberis a'r Ffordd Gyswllt trwy'r dref fel ffiniau amlwg a naturiol. Tynnwyd sylw y byddai hyn yn gadael sefyllfa etholaeth bresennol Seiont, yn etholaeth 2 aelod gydag oddeutu 2,392. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu ar ddymuniad y Cyngor i geisio cael etholaethau un aelod, argymhellir ei rannu i mewn i ddwy etholaeth - Etholaeth Ganol Tref Caernarfon o oddeutu 1,177 ac Etholaeth Hendre, oedd yn bennaf yn un stad tai mawr unigol, o tua 1,215 o etholwyr. Adroddwyd bod y Cynghorydd Roy Owen (aelod lleol Seiont) yn anghytuno efo'r cynigion.

Nododd aelod lleol Cadnant ei fod yn gefnogol i'r cynigion a fyddai'n tacluso ffiniau'r dref ac yn cyd-fynd â gofynion y Comisiwn.

Nododd y Cynghorydd Cai Larsen (aelod lleol Seiont) ei fod yn croesawu'r cynigion synhwyrol a bod ward Seiont yn enfawr gyda mannau difreintiedig gyda llawer o waith achos.

Mewn ymateb i sylw gan aelod lleol Cadnant mai heno fyddai cyfarfod y Cyngor Tref, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) os derbynnir sylwadau gan y Cyngor Tref fe'u cynhwysir yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Ffestiniog**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) tra roedd ardal Bowydd a Rhiw yn iawn fel y mae, roedd etholaeth Diffwys a Maenofferen gyda 750 o etholwyr yn rhy fechan ac etholaeth Teigl (1,315) ychydig yn fwy na'r cyfartaledd. Adroddwyd ymhellach i'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad o ran y ffin a gynigwyd gan Gyngor Tref Ffestiniog, y bu camddealltwriaeth o ran pa hen bost y cyfeiriwyd ato. Nododd bod y Cyngor Tref a'r aelodau lleol yn unfrydol o'u cefnogaeth i'r ffin ddiwygiedig a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Comisiwn.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Tywyn**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod etholaeth Tywyn yn etholaeth dau aelod. Tynnodd sylw bod 3 ward cymunedol yn ardal Tywyn, roedd ward Morfa yn agos i'r hyn a edrychir o ran niferoedd etholwyr gyda wardiau Tywyn Gorllewin a Thywyn Dwyrain efo'i gilydd tua'r nifer iawn felly roedd ffin naturiol ar gyfer creu 2 etholaeth. Adroddodd bod yr aelodau lleol yn gefnogol i'r cynnig.

Nododd bod risg o ran etholaethau Aberdyfi a Pennal oherwydd bod rhagolygon am leihad pellach yn nifer etholwyr ond awgrymir am y tro fod ward Tywyn Dwyrain yn mynd hefo ward Tywyn Gorllewin.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Abersoch, Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Morfa Nefyn a Llanbedrog**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod y 3 opsiwn posib a nodwyd yn yr adroddiad yn arwain at leihad o dri aelod yn yr ardal. Adroddodd y cynhaliwyd trafodaethau efo'r aelodau lleol lle mynegwyd pryder bod yr opsiynau a gynigir yn golygu cymaint o leihad o 3 aelod a'r effaith ar gynrychiolaeth effeithiol i'r boblogaeth gyfan. Nododd y rhoddir cyfle i'r aelodau lleol gynnig opsiwn arall cyn cyfarfod y Cyngor Llawn a fyddai'n dilyn at y gostyngiad mwyaf synhwyrol o ran aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran ymateb gan gynghorau cymuned, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) mai Cyngor Cymuned Botwnnog yn unig oedd wedi ymateb gan nodi eu gwrthwynebiad i fwriadau'r Comisiwn.

Nododd aelod bod Cyngor Cymuned Llanengan yn trafod y mater yn eu cyfarfod ar nos Fercher. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) y byddai'n angenrheidiol i dderbyn unrhyw gynnig ychydig o ddyddiau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 15 Mehefin er mwyn ei asesu.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod unrhyw gynnig yn gorfod cydymffurfio gyda gofynion y Comisiwn ac, os oedd y mathemateg yn awgrymu lleihad yn y nifer o Aelodau byddai'r Comisiwn yn gweithredu.

Nododd aelod lleol Llanengan y byddai’n cynnal trafodaethau gyda’r aelodau lleol perthnasol yng nghyswllt Llanbedrog/Mynytho ac Abersoch/Llanengan/rhan o Langian ond nad oedd y ffigyrau pendant ganddo. Mewn ymateb, nododd Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) ei fod wedi rhannu niferoedd etholwyr yn y wardiau cymunedol efo aelodau lleol yr ardal yn dilyn cynnal cyfarfod. Eglurodd nad oedd y wybodaeth o ran rhannu’r wardiau cymunedol ar gael, byddai swyddogion yn dilyn derbyn cynigion gan yr aelodau lleol yn gwneud y gwaith o gyfrif nifer etholwyr o fewn ward etholaethol.

Mewn ymateb i awgrym gan aelod lleol Clynnog y dylid galw cyfarfod arbennig o Bwyllgor Ardal Dwyfor, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod yr amserlen yn gyfyng a byddai’n rhaid penderfynu ar y cynigion yng nghyfarfod y Cyngor Llawn wythnos nesaf.

Nododd aelod lleol Llanbedrog bod nifer o dai haf yn yr ardal ac er nad oedd y perchnogion ar y gofrestr etholwyr, roedd aelodau lleol yn eu cefnogi hwythau hefyd. Ychwanegodd y ceisir llunio cynnig a fyddai’n rhannu’r etholaethau mewn ffordd naturiol. Roedd o’r farn bod Llanbedrog yn gweu yn naturiol efo Mynytho. Nododd bod Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi trafod y mater a byddai’n cysylltu efo’r clerc er mwyn iddynt gyflwyno cynnig.

**PENDERFYNWYD rhoi cyfle i aelodau lleol ardal Llŷn lunio cynnig ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.**

Cynhaliwyd munud o dawelwch am 11.00am fel arwydd o barch i rhai a ddioddefodd yn dilyn digwyddiad terfysgol diweddar yn Llundain.

**Ardal Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod 2 opsiwn posib, roedd yr ail opsiwn yn rhoi niferoedd mwy cytbwys ar draws y tair etholaeth a awgrymir gyda opsiwn un yn awgrymu etholaeth Harlech, Talsarnau a Llanfair a fyddai’n etholaeth fawr o 1,820. Tynnwyd sylw mai’r mater oedd yn creu tensiwn o ran llunio’r etholaethau oedd, a fyddai Talsarnau/Maentwrog/Trawsfynydd efo’u gilydd yn gwneud synnwyr.

Nododd aelod lleol Llanbedr mai opsiwn 1 oedd y gorau gyda wardiau cymunedol Harlech a Talsarnau efo'i gilydd yn gwneud mwy o synnwyr na gyda wardiau cymunedol Trawsfynydd a Maentwrog.

Mewn ymateb i’r sylwadau, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yn ddaearyddol bod opsiwn 1 yn gwneud mwy o synnwyr.

Nodwyd y derbyniwyd sylwadau gan aelod lleol Dyffryn Ardudwy a oedd yn nodi ei bryder y byddai Dyffryn Ardudwy a Talybont efo Llanbedr yn creu etholaeth fawr gyda Talybont yn ymylol ond ei fod yn cydnabod bod rhaid gostwng y nifer o etholaethau. Roedd yn cynnig ‘Dyffryn Ardudwy, Llanbedr a Talybont’ fel enw i’r etholaeth newydd.

**PENDERFYNWYD argymell opsiwn 1 i’r Cyngor Llawn.**

**Ardal Llanrug**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod angen tacluso yng nghylch Llanrug er mwyn gwastatau sefyllfa’r etholaethau trwy ddelio â chymunedau Cwm y Glo (438), Brynrefail (224) a Ceunant (305) a hefyd Penisarwaun (560) a Rhiwlas (533).

Nodwyd y cynigir dwy etholaeth wedi eu haddasu sef un etholaeth ar gyfer Cwm y Glo, Brynrefail a Cheunant (967) ac etholaeth ar gyfer Penisarwaun a Rhiwlas (1,093). Adroddwyd bod peth gwahaniaeth barn ymysg yr aelodau lleol.

Nododd aelod lleol Penisarwaun ei ddymuniad i gadw cymuned Brynrefail efo Penisarwaun a Rhiwlas gyda chyfanswm etholwyr yn 1,317 a oedd ychydig uwchben y cyfartaledd a nodwyd gan y Comisiwn. Ychwanegodd bod Afon Rhyddallt yn ffin naturiol

Nododd aelod lleol Llanrug nad oedd eisiau etholaeth 2 aelod a'i fod o'r farn y dylai'r cynnig gerbron fod yn dderbyniol i'r Comisiwn. Ychwanegodd bod cymuned Brynrefail efo cyswllt cryfach efo Cwm y Glo na Rhiwlas. Nododd bod Cyngor Cymuned Llanrug o blaid y cynnig.

Nododd aelod lleol Cwm y Glo bod peryg y llunnir etholaeth 2 aelod pe na fyddai'r Cyngor yn cyflwyno cynnig. Ychwanegodd y byddai etholaeth newydd Cwm y Glo, Brynrefail a Cheunant yn cyd-fynd â'r dalgylch ysgol.

Ychwanegodd aelod lleol Penisarwaun bod Brynrefail a Chwm y Glo yn mynd efo'i gilydd ond roedd angen llunio etholaeth o ran ffin naturiol.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) os na fyddai newid y bod perygl y gallai'r Comisiwn lunio un etholaeth 2 aelod.

Holodd aelod lleol Penisarwaun os derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Nodwyd na dderbyniwyd ymateb ganddynt.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**<u>Ardal Bontnewydd, Llanfaglan a Chaeathro / Ardal Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd Ddu</u>**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod y cynigion gerbron ar gyfer yr ardaloedd yma wedi eu llunio gan gymryd i ystyriaeth y cysylltiadau cymunedol lleol a dalgylch ysgolion.

**PENDERFYNWYD argymell y cynigion i'r Cyngor Llawn.**

**<u>Ardal Dinas a Dinas Dinlle</u>**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) bod y cynnig gerbron yn ceisio ymateb i newid yn ardal Bontnewydd i raddau ond hefyd yn ceisio defnyddio'r cymunedau o gwmpas ac o dan ffordd fawr yr A499 fel ffin gweddol naturiol rhwng cymunedau.

Nododd aelod lleol Llanwnda y byddai'n anoeth creu etholaeth mor fach a oedd yn ardal 2 cyngor cymuned sef Llanwnda a Llandwrog. Roedd o'r farn y dylid cadw etholaeth Llanwnda yn ei ffurf bresennol a oedd yn cwrdd â gofynion nifer etholwyr y Comisiwn ac o fewn ardal un cyngor cymuned.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) y byddai cadw etholaeth Llanwnda fel y mae yn codi mater o ran lle byddai Dinas Dinlle yn eistedd.

Ychwanegodd yr aelod lleol pe penderfynir creu etholaeth Dinas a Dinas Dinlle fe fyddai'n rhaid ystyried cyfuniad o Rostryfan/Rhosgadfan/Carmel a'r Fron.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod unrhyw gyfuniad yn bosib ond bod rhaid i'r mathemateg fod yn unol â'r gofynion. Ychwanegodd y dylid trafod efo'r aelodau lleol i drafod yr ardal.

**PENDERFYNWYD cynnal trafodaethau efo'r aelodau lleol perthnasol i lunio cynnig ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal cyn cyfarfod y Cyngor Llawn.**

**Ardal Llanllyfni, Talysarn, Nantlle a Nebo**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yr awgrymir dwyn ynghyd Llanllyfni (513) Talysarn (714) Nantlle (152) a Nebo (253) i greu un etholaeth newydd o 1,612 (Cyngor Cymuned Llanllyfni i gyd heblaw am Benygroes).

Adroddodd nad oedd gan aelod lleol Talysarn wrthwynebiad i'r cynnig gerbron er ei fod yn nodi bod etholaeth newydd (Groeslon, Carmel a Ceserea) yn amrywiol iawn o ran demograffeg.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Groeslon, Carmel a Ceserea / Ardal Rhostryfan a Rhosgadfan**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yn dilyn y drafodaeth am Ardal Dinas a Dinas Dinlle fe gynhelir trafodaethau efo'r aelodau lleol.

**Ardal Clynnog, Trefor, Llithfaen a'r Ffôr**

Tynnodd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) sylw bod etholaeth bresennol Clynnog yn sylweddol o dan drothwy niferoedd etholwyr.

Nodwyd mai opsiwn 3 a gynigwyd gan aelod lleol Llanaelhaearn a ffafrir oedd cadw etholaeth bresennol Llanaelhaearn (1,151) fel y mae er y byddai ei alw yn "Yr Eifl" yn fwy synhwyrol. Byddai ward Nebo (233) wedyn yn cael ei ychwanegu at Glynnog i greu etholaeth newydd o 946 o etholwyr (sydd yn dal yn etholaeth fechan iawn yn nhermau'r Comisiwn) a'i dynnu oddi wrth ward Llanllyfni fyddai'n lleihau maint y ward hwnnw i 1,369 mwy rhesymol. Byddai hyn yn cyfarch pryderon a fynegwyd gan Gyngor Cymuned Pistyll am gysylltu cymunedau bychain gwledig gydag ardaloedd mwy a gwahanol iawn.

Nododd aelod lleol Clynnog ei fod yn cytuno mai opsiwn 3 oedd yr un gorau.

**PENDERFYNWYD argymell opsiwn 3 i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Abererch, Efailnewydd, Pentre Uchaf a Buan**

Nodwyd bod y cynnig ar gyfer yr ardal yma wedi ei gynnwys mewn camgymeriad ac fe argymhellir na ddylid newid felly gofynnir i'r Pwyllgor ei ddiystyru.

Nododd aelod lleol Abererch ei fod yn hapus gyda'r argymhelliad bod yr etholaethau yn aros yr un fath.

**Ardal Penllyn**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yr awgrymir cyfnewid wardiau rhwng y ddwy etholaeth bresennol ond cadw dwy sedd fel bod 3 sedd yn yr ardal gyfan, sef y Bala a hefyd Gorllewin Penllyn - Llanuwchllyn (494), Cwm y Glyn (83) a Llanycil (323) (etholaeth o 900) a Dwyrain Penllyn – Gwalia (125), Llan y Betws (456) a Llanfor (347) (etholaeth o 928). Nodwyd bod yr etholaethau yn fychan o edrych i'r dyfodol ond ei fod yn anorfod mewn ardal mor wledig.

Nodwyd bod yr aelodau lleol yn pryderu, os na gynigir newid, y llunnir etholaeth fawr neu etholaeth 2 aelod.

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Ardal Llanegryn, Bryncrug a'r Friog**

Nododd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) yr awgrymir symud ward Llanegryn o un etholaeth i'r llall er mwyn creu dwy etholaeth wedi eu hail-drefnu:-
Llanegryn, Bryncrug a Llanfihangel = 1,000 (ardal 3 Cyngor Cymuned)
Y Friog, Islaw'r Dre a Llangelynnin = 1,332 (ardal 2 Cyngor Cymuned).

**PENDERFYNWYD argymell y cynnig i'r Cyngor Llawn.**

**Sylwadau Cyffredinol**

Nododd aelodau'r prif bwyntiau ychwanegol yma:-

- Roedd y cyfnod ymgynghori, a groesodd cyfnod etholiad yn gwbl annigonol ar gyfer unrhyw drafodaeth leol ystyrlon ac wedi effeithio ar y gallu i fanylu ar rhai cynigion.
- Dylai'r Comisiwn Ffiniau roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr, ar bwynt arbennig mewn amser, wrth lunio ei gynigion. Yn benodol, y galw a'r llwyth gwaith sydd yn codi yn sgil presenoldeb myfyrwyr, ymwelwyr a pherchnogion ail-gartrefi sydd ddim ar y gofrestr etholwyr leol yn golygu bod yn rhaid rhoi sylw i hynny wrth bennu maint etholaethau.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol) y cyflwynir y sylwadau yn yr adroddiad i'r Cyngor Llawn.

**7. CYFRIFON TERFYNOL 2016/17 – ALLDRO REFENIW**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid, nododd bod sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2016/17 yn galonogol o fewn yr hinsawdd ariannol heriol. Diolchodd i'r swyddogion cyllidol am eu gwaith manwl a'u cymorth i'r adrannau.

Manylodd Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn ei gyfarfod yn y prynhawn. Tynnwyd sylw at yr argymhelliad i'r Cabinet:

"1.1 Cymeradwyo a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2016/17.
1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef:

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (100) |
| Plant a Theuluoedd | 0 |
| Addysg | (48) |
| Economi a Chymuned | (19) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 0 |
| Amgylchedd (Rheoleiddio gynt) | (38) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (96) |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (45) |
| Cyllid | (67) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (56) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Defnyddio (£46k), sef tanwariant uwchlaw £100k Oedolion, Iechyd a Llesiant i gyfrannu tuag at ddiffyg mewn adran arall.

- Clirio gorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd er mwyn caniatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant (£46k) a thanwariant Corfforaethol (£151k).
- Clirio gorwariant yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn caniatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2017/18, a'i ariannu drwy ail gyfeirio tanwariant Corfforaethol (£88k).
- Defnyddio'r tanwariant £939k ar Gyllidebau Corfforaethol am 2016/17 fel a ganlyn:
  - £151k i glirio gorwariant Adran Plant a Theuluoedd
  - £88k i glirio gorwariant Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
  - £700k i'w glustnodi mewn cronfa er mwyn cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol i'r dyfodol.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol a rhyddhau'r ddarpariaeth fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o gronfeydd a darpariaethau.
1.5 Datgan i'r adrannau mai dim ond mewn amgylchiadau arbennig iawn y bydd y Cabinet yn clirio gorwariant i'r dyfodol, ac y bydd disgwyl i adrannau gario unrhyw orwariant ymlaen yn y dyfodol (yn unol a'r drefn o gario tanwariant ymlaen)."

Nododd y Pennaeth Cyllid y cyflwynir datganiadau ariannol statudol 2016/17 gerbron y Pwyllgor i'w cymeradwyo ar 13 Gorffennaf ond fod yr adroddiad alldro gerbron yn darparu darlun ariannol mwy eglur. Nododd bod cryn ansicrwydd ynglŷn â lefel ariannu grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 a thu hwnt. Adroddodd y cynhaliwyd adolygiad o holl gronfeydd y Cyngor wrth gau'r cyfrifon eleni ac fe gynaeafwyd £1.060m o adnoddau. Eglurodd y byddai neilltuo £1.76m mewn cronfa benodol yn rhoi amser i'r Cyngor gynllunio er mwyn ymateb yn briodol yn yr hydref yn dilyn derbyn cadarnhad o lefel ariannu grant Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nododd yr aelodau'r prif sylwadau canlynol:

- Llongyfarch yr adrannau ar eu rheolaeth ariannol dynn. A oedd disgwyliad i'r adrannau i barhau i danwario?
- A oedd gorwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd oherwydd materion tu hwnt i reolaeth yr Adran ac oedd y tanwariant yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant oherwydd methiant i ddarparu gwasanaethau?
- A ellir cynnwys yn yr adroddiad y tueddiadau blynyddol?
- Na allai'r Cyngor gystadlu efo cwmnïau preifat o ran y prisiau a godir am waredu gwastraff masnachol;
- A oedd symudiad y Cyngor tuag at alluogi unigolion hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi yn golygu bod gorwariant ar ofal cartref?
- A oedd y gorwariant ar wasanaethau gwastraff oherwydd y ddirwy a dderbyniodd y Cyngor yng nghyswllt storio deunyddiau yn Nepo Tywyn?
- Bod y pwyllgor wedi codi pryderon yn y gorffennol o ran gorwariant gwasanaeth morwrol ac y dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i ystyried ehangu eu gwaith craffu ar adolygu trefniadau rheoli a llywodraethu Hafan Pwllheli i gynnwys yr holl harbyrau;
- Pryder bod yr Adran Ymgynghoriaeth yn tanwario o ystyried risg cynyddol llifogydd. Dylid gwario'r arian i wneud mwy o waith i reoli'r risg;
- Yr angen i sicrhau bod unrhyw tanwariant ddim yn fethiant i ddarparu gwasanaethau ac yn danwariant dilys.

Ymatebodd y swyddogion i'r sylwadau fel a ganlyn:

- Roedd nifer o adrannau wedi tanwario ar sail un-tro yn dilyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn gynnar. Amlygwyd mai canran isel oedd y tanwariant o ystyried

maint y gyllideb a bod cyllidebau 2017/18 yr adrannau wedi eu haddasu i adlewyrchu'r incwm a gasglwyd yn 2016/17, ayb;

- Nid oedd gorwariant yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a thanwariant yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant oherwydd methiant i ddarparu gwasanaethau;
- Roedd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi gorwario'n bennaf ar wasanaethau lleoliadau. Roedd yr Adran wedi derbyn bid parhaol o £50k a bid £210k un-tro ar gyfer 2017/18 i gydnabod y pwysau sydd ar y gwasanaethau;
- Roedd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi tanwario oherwydd derbyn arian gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a oedd yn ddyledus ar gyfer rhai blynyddoedd blaenorol. Nodwyd mai sefyllfa un-tro ydoedd.
- Bod rhaid dethol y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad, os oedd yr aelodau yn dymuno derbyn gwybodaeth am dueddiadau, byddai rhaid dewis maes am sylw manwl;
- Bod cwmnïau preifat yn cael dewis o ba ardaloedd yr oeddent yn casglu gwastraff masnachol, gyda'r Cyngor yn gwasanaethu'r ardaloedd nad oedd yn derbyn gwasanaeth gan gwmnïau preifat. Roedd y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth hwn gyda'r nod o adennill costau;
- Bod symudiad y Cyngor tuag at alluogi unigolion hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi yn ffactor. Roedd y newid pwyslais a gwireddu cynlluniau arbedion yn dangos tueddiad o ran pwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal cartref.
- Nid y gwasanaethau gwastraff oedd wedi derbyn dirwy, ond yn hytrach gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Roedd y dirwy wedi ei gynnwys o fewn ffigyrau gwariant Priffyrdd.
- Y byddai tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth i'w gario 'mlaen i 2017/18. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn gweithredu'n fasnachol.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**
**(ii) Argymell i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.**
**(iii) Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i ystyried ehangu eu gwaith craffu ar adolygu trefniadau rheoli a llywodraethu Hafan Pwllheli i gynnwys yr holl harbyrau.**

**8. RHAGLEN GYFALAF 2016/17 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion ar adolygiad diwedd y flwyddyn o'r rhaglen gyfalaf.

Gosododd yr Aelod Cabinet Adnoddau y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn y prynhawn. Nodwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario dros £29m yn 2016/17 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £11m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol, sef 77% o'r cyfanswm gwariant. Cadarnhawyd y byddai £9.4m o gyllideb gwariant yn llithro o 2016/17, o'i gymharu â llithriad o £9.5m ar ddiwedd 2015/16. Ni achoswyd unrhyw golled ariannol grant i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

Tynnodd sylw y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo dyraniad o £100,000 ar gyfer gwaith rhagbaratoi a chynllunio i adolygu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Bangor o ganlyniad i amserlen gaeth Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllun Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Adroddodd y Pennaeth Cyllid y cyflwynir adroddiad yng nghyswllt rhaglen gyfalaf hir dymor y Cyngor gerbron y pwyllgor ar ôl yr haf.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor;**
**(ii) Argymell i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.**

## 9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 30/1/17 – 31/3/17

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 13 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau, 3 adroddiad arall (memoranda ayb) a 3 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Diogelu Rhag Colli Rhyddid**

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y risgiau ynghlwm â'r maes yma, nododd y Rheolwr Archwilio bod y maes yn un sensitif ac anodd a bod hithau wedi mynychu hyfforddiant ar y maes lle amlygwyd y risgiau sylweddol i'r Cyngor. Nododd bod bid wedi ei gymeradwyo o ran cyflogi swyddogion i ddelio efo'r ceisiadau. 'Roedd y swmp gwaith yn cynyddu gyda'r angen i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant ar y maes i gartrefi preswyl y Cyngor ynghyd â rhai preifat. Nododd gan fod yr adroddiad wedi derbyn barn C fe fyddai gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau lle gellir ystyried y cynnydd hyd yn hyn.

**Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nododd aelod, er bod yr adroddiad wedi derbyn barn B, ei dymuniad i ystyried yr archwiliad yn y Gweithgor Gwella Rheolaethau. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio fe ellir trafod yr archwiliad yn y gweithgor os oedd y Pwyllgor yn dymuno.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed ei bryder am yr archwiliad gan ei fod dan yr argraff bod y materion a godwyd yn y gorffennol wedi eu datrys, nododd y Rheolwr Archwilio bod swyddog yn gyfrifol am gydlynu ymateb i gwynion ac roedd Uned Gofal Cwsmer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn mynd i roi camau gweithredol mewn lle i ymateb i'r archwiliad ac fe obeithir y byddai gwelliant.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 30 Ionawr 2017 hyd at 31 Mawrth 2017 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**

**(ii) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Stephen Churchman, Angela Russell a Cemlyn Williams i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' ynghyd â'r archwiliad 'Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol' oedd wedi derbyn categori barn 'B';**

**(iii) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2016/17

Nododd y Cadeirydd oherwydd cyfyngiad amser y dylid gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf ar 22 Mehefin.

**PENDERFYNWYD gohirio'r eitem.**

## 11. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg oedd yn amlinellu rhaglen waith y Pwyllgor am y cyfnod hyd at Mai 2018.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.50pm

______________________________

**CADEIRYDD**